

**Cynllun Datblygu Unedol  
Wreccsam  
Adroddiad Monitro 2004-5**

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru, dyma drydydd Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Bydd yn cwmpasu'r flwyddyn 2004-5 ac yn ystyried y cyddestun cyffredinol a'r tueddiadau yn yr hirdymor.

Ymysg prif ganfyddiadau'r adroddiadau mae:

**Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam:** mae CDU Wrecsam yn gosod allan y polisiau a'r cynigion ar gyfer datblygiadau a defnydd tir yn y fwrdeistref sirol hyd at 2011, ac fe'i mabwysiadwyd ar 14<sup>eg</sup> Chwefror 2005.

**Tai:** bu i 395 o dai gael eu cwblhau yn 2004-5, ychydig yn is na'r cyfartaledd ers 1996 a oedd yn 420. Ffigwr polisi'r CDU yw 385 cartref y flwyddyn. Yn 2004 roedd gan y fwrdeistref sirol dir ar gyfer tai am 7.10 blwyddyn, sy'n llawer uwch na'r 5 mlynedd sy'n ofynnol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

**Gwaith:** roedd y tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth yn 2004-5 yn 7.1 hectar, o'i gymharu â'r cyfartaledd o 6.9 hectar y flwyddyn ers 1996. Ffigwr polisi'r CDU yw 20 hectar y flwyddyn.

**Siopa:** Cymeradwywyd manylion y cynllun ar gyfer warws manwerthu bwyd ar gyn-safle Carlsberg Tetley gan y Cyngor yn 2004, ac mae'r datblygiad nawr ar yn cael ei adeiladu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygiad manwerthu ar safle Dôl yr Eryrod yn Wrecsam ym mis Gorffennaf 2005. Ystyrir Wrecsam fel y drydedd ganolfan siopa fwyaf pwysig yng Nghymru a'r 101<sup>fed</sup> yn y DU.

**Cludiant:** Gohiriwyd adeiladu ffordd fynediad Ystad Ddiwydiannol Wrecsam gan benderfyniad Lywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â chymeradwyo'r Gorchmynion Prynu Gorfodol. Erbyn hyn mabwysiadwyd ffordd wahanol gan y Cyngor a bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno maes o law. Gobeithir y bydd y gwaith ar y safle yn dechrau yn 2008.

**Gwastraff:** bu i'r Cyngor gael gwared ar 85000 tunnell o wastraff yn 2004-5. Bu i 85% ohono fynd i safleoedd tirlenwi a 15% o'r gwastraff gael ei gompostio neu ei ailgylchu. Mae gan y Cyngor darged y bydd yn ailgylchu neu gompostio 25% o wastraff cartref erbyn 2007-8.

**Mwynau:** Mae'r gwaith yn parhau yng ngwaith tywod a graean gweithredol presennol Borrás, Caia Farm a Balls Wood. Ar y cyd byddant yn cynhyrchu oddeutu 500,000 tunnell y flwyddyn. Daw 90,000 tunnell o siâl gwaith glo o Llay yn flynyddol. Bydd ychydig o fawn yn parhau i gael ei dorri yn Fenns Moss.

### Diogelu/Gwella'r Amgylchedd:

- Ni chollwyd y gwahandir gwyrdd yn sylweddol yn ystod cyfnod y cynllun;
- Ceir 28 safle cadwraeth natur bwysig statudol yn Wrecsam, a thros 160 safle anstatudol. Cyhoeddwyd 6 gorchymyn cadw coed yn 2004-5;
- Cyhoeddwyd un gorchymyn cadwraeth ychwanegol (Cefn), sy'n gwneud cyfanswm o 22 yn y sir. Ceir 925 adeilad rhestredig, ac mae 17 ohonynt yn Gradd 1, a 73 yn Gradd II. Yn 2002 roedd 29% o'r adeiladau rhestredig un ai mewn perygl neu angen eu monitro'n ofalus, ond gostyngodd yr adeiladau rhestredig a oedd mewn perygl o 6% yn 2004-5 a hynny'n dilyn gostyngiad o 5% yn 2003-4. Mae gan Wrecsam 116 o henebion cofrestredig a bron iawn i 6000 safle o ddiddordeb archeolegol.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i bob awdurdod cynllunio lleol gyhoeddi Adroddiadau Monitro Cynllun Datblygu Unedol. Dyma drydydd Adroddiad Monitro'r CDU a luniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ceir dwy ran: **Rhan A** sy'n ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn 2004-5, a **Rhan B** sy'n ystyried y cyd-destun cyffredinol a'r tueddiadau yn yr hirdymor. Mae'r **Atodiad** yn dangos rhai ystadegau allweddol.

1.2 Mae CDU Wrecsam yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2011. Mae'n gosod ystod o ddangoswyr perfformiad. Mae rhai, megis tir ar gyfer gwaith a thai, yn destun systemau monitro hir sefydledig, ac o ganlyniad ceir llawer iawn o wybodaeth. Mewn achosion eraill, rhaid sefydlu systemau monitro newydd, ac ar hyn o bryd mae'r wybodaeth yn gyfyngedig. Yn sgil profiad a'r wybodaeth fydd ar gael, adolygir y dangoswyr yn rheolaidd.

## 2. Strategaeth CDU Wrecsam

2.1 Mae strategaeth CDU Wrecsam yn ceisio defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd datblygiadau newydd yn cael eu cydbwysu yn erbyn buddiannau cadwriaethol. Bydd costau ariannol ac amgylcheddol a'r ddibyniaeth ar siwrneai yn y car yn cael eu lleihau. Mae'r strategaeth yn diogelu tirwedd, safleoedd a chynefinoedd sydd o bwysigrwydd ecolegol a gweledol yn y fwrdeistref sirol ac yn ceisio cadw gallu cynhyrchiol y tir amaethyddol o ansawdd da.

2.2 **Twf Aneddiadau:** mae'r strategaeth yn diogelu harddwch aneddiadau ac yn sicrhau y caiff tir ei ddefnyddio'n economaidd ac effeithlon drwy adfywio'r ardaloedd yr adeiladwy arnynt eisoes, ynghyd â thwf allanol cyfyngedig. Defnyddir y strategaeth mewn tair isadran polisi:

- **Tref Wrecsam:** prif dref y fwrdeistref sirol, canolbwynt y rhwydwaith cludiant lleol a'r safle ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau manwerthu, cyflogaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus. Felly, dyma'r lleoliad sydd fwyaf addas ar gyfer datblygiad pellach. Nid yw twf i bob cyfeiriad yn addas oherwydd presenoldeb tir amaethyddol o ansawdd uchel, tirweddau o bwysigrwydd hanesyddol ac adloniadol, dyddodion tywod a graean pellach a'r angen i atal y dref rhag ymuno â'r pentrefi cyfagos;
- **Pentrefi trefol:** yr aneddiadau mwyaf i'r de, gogledd, a gorllewin Wrecsam, sydd â'r gallu i gynnal twf, yn arbennig ar dir diffaith neu segur. Fodd bynnag, bu i rai dyfu'n sylweddol a hynny'n gyflym, ac mae eu gwasanaethau a'u cyfleusterau o dan bwysau. Gwahenir rhai gan leiniau cul o gefn gwlad agored, ac mae'r strategaeth yn ceisio diogelu cymeriad unigol y pentrefi drwy ddiogelu'r ardaloedd agored hyn. Byddai'n annoeth hyrwyddo datblygiadau sylweddol ar ymylon pentrefi trefol y tu hwnt i'r ymrwymyadau presennol;
- **Pentrefi gwledig:** mae gan y rhain ystod gyfyngedig o wasanaethau i fodloni anghenion lleol yn gyffredinol. Fe'u amgylchynir gan gefn gwlad ddeniadol, a phrin yw'r cludiant cyhoeddus yn gyffredinol. Cyfyngir datblygiadau newydd mewn pentrefi gwledig i safleoedd bychain.

2.3 **Ffiniau datblygu:** ac eithrio'r pentrefannau lleiaf, diffiniwyd y ffiniau datblygu fel rheol er mwyn gosod y ffin lle na chaniateir datblygiadau newydd y tu hwnt iddo. Mae datblygiad fel rheol yn dderbyniol o fewn ffiniau aneddiadau os yw'n cydsynio â pholisiau datblygu adeiladau, y cyfarwyddyd cynllunio atodol a'r safonau a fabwysiadwyd gan y Cyngor (e.e. parcio, mannau agored).

2.4 Mae'r strategaeth yn adlewyrchu potensial rhai aneddiadau ar gyfer datblygiad pellach, tra'n cydnabod bod y cyfle i ddatblygu yn gyfyngedig mewn aneddiadau eraill oherwydd gallu isadeiledd y gwasanaethau, neu'r angen i ddiogelu'r amgylchedd.

## Rhan A: 2004-5

### Tai

- 3.1 Bu i 395 o dai gael eu cwblhau yn y Fwrdeistref Sirol yn 2004-5. Roedd 310 (78%) ohonynt yn adeiladau newydd ac 85 (22%) yn adeiladau wedi eu trosi. Mae hyn yn cymharu â'r nifer a gwblhawyd ar gyfartaledd yn 1996-2005 sef 420. Yn 2004-5, roedd 81% o'r tai a gwblhawyd yn y fwrdeistref sirol ar safleoedd tir llwyd, ac roedd 19% ar safleoedd tir glas.
- 3.2 Mae'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (HLA) ddiweddaraf i Fwrdeistref Sirol Wrecsam yn seiliedig ar y sefyllfa ar 1 Ebrill 2004. Dangosodd yr astudiaeth fod cyflenwad tir ar gyfer 2707 o dai, gyda 2073 ohonynt ar safleoedd mawr (10 annedd neu fwy), a 634 ar safleoedd bychain.
- 3.3 Roedd cyfanswm y cyflenwad tai pum mlynedd (aneddiadau a oedd ar gael ar gyfer datblygiad o fewn pum mlynedd i'r dyddiad sylfaenol) yn 2260, (1626 ar safleoedd mawr, 634 ar safleoedd bychain) sy'n gynydd sylweddol ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol sef 1865. Roedd gan y fwrdeistref sirol gyflenwad tir ar gyfer tai yn Ebrill 2004 ar gyfer 7.10 mlynedd, sy'n llawer uwch na'r 5 mlynedd sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru.
- 3.4 Yn ystod y pedair blynedd o Ebrill 2001 - Mawrth 2005 roedd 58% wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap a 42% ar safleoedd a neilltuwyd.

### Cyflogaeth

- 3.5 Roedd y tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth yn 2004-5 yn 7.1 hectar, o'i gymharu â ffigwr polisi'r CDU o 20 hectar y flwyddyn (300 hectar 1996-2011). Mae'r tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth ers 1996 wedi bod yn 6.9 hectar y flwyddyn, llawer is nag yng nghanol y 1980au, pan ddefnyddiwyd oddeutu 24 hectar y flwyddyn.
- 3.6 Mae'r rhesymau sylfaenol am beidio â defnyddio tir ar gyfer cyflogaeth yn Wrecsam yn cynnwys:
- Gostyngiad ym muddsoddiad uniongyrchol byd eang;
  - Lleihad ym mhwsigrwydd cymharol cynhyrchu â'r economi cenedlaethol, a chynnydd ym mhwsigrwydd cymharol y diwydiant gwasanaethau;
  - Mwy o gystadleuaeth am fuddsoddiad o wledydd yn nwyrain Ewrop neu'r tu allan i'r UE;
  - Y fwrdeistref sirol wedi colli statws fel ardal a gynorthwyr;
  - Y tueddiad i fuddsoddiad cynhyrchu ganolbwyntio ar brosiectau sy'n gymharol fach sy'n creu swyddi ac ychydig iawn o brosiectau cynhyrchu sylweddol;
  - Mae mwyafrif y brosiectau cynhyrchu yn brosiectau caffaeliad neu'n ymestyniadau yn hytrach nag yn brosiectau adeiladu o'r newydd;

Er gwaethaf y tueddiadau hyn, mae diweithdra yn y fwrdeistref sirol yn isel: 1.8% (1414 unigolyn) yn Ebrill 2005, sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr o 1.7% (1370 unigolyn) yn Ebrill 2004.

3.7 Yn Ebrill 2005, roedd 242.2 hectar o dir ar gyfer cyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, un ai â chaniatâd cynllunio neu wedi eu clustnodi yn y CDU. Lleolir 64% o'r tir ar gyfer cyflogaeth ar Ystad Ddiwydiannol Wrecsam. Yn Ebrill 2005 roedd oddeutu 74,000 m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr gwag yn y fwrdeistref sirol, o'i gymharu â 62,000 m<sup>2</sup> ym mis Mehefin 2004.

3.8 Rodd oddeutu 15000 m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr mewn swyddfeydd gwag ym mis Ebrill 2005, a lleolwyd y mwyafrif ym:

- Mharc Technoleg Wrecsam (7700 m<sup>2</sup>);
- Ystad Ddiwydiannol Wrecsam (3900 m<sup>2</sup>).

- Canol Tref Wrecsam (2300 m<sup>2</sup>);

## Siopa

3.9 Yr ychwanegiad diweddaraf i'r arwynebedd llawr manwerthu yn Wrecsam yw'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyn safle bragdy Carlsberg Tetley i adeiladu warws nad yw'n cadw bwyd sy'n 5351m<sup>2</sup> a bwyty A3. Mae'r datblygiad yn cael ei adeiladu yn awr. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu sylweddol ar safle Dôl yr Eryrod sydd ychydig i'r de o ganol tref Wrecsam ym mis Gorffennaf 2005.

3.10 Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd am dueddiadau manwerthu yn y DU gan Colliers CRE yn dangos pam fo manwerthwyr yn cael eu denu gan ganolfannau siopa'n gyffredinol. Roedd y ffigwr ar gyfer Wrecsam yn £1130 y m<sup>2</sup> yn 2005: ni fu newid ers 2002. O'i chymharu â chanolfannau siopa eraill yng Nghymru, roedd Wrecsam yn bedwerydd o ran lefelau rhentu yn 2005, a'r tu ôl i Gaerdydd, Abertawe, a Chasnewydd. O ran canolfannau siopa mae gan Wrecsam y lefel rhentu uchaf yng Nghymru a'r ganolfan agosaf ati yw Llandudno (£861 y m<sup>2</sup>). O'i chymharu â chanolfannau siopa mewn ardaloedd cyfagos yn Lloegr, mae lefelau rhentu yn Wrecsam y tu ôl i Gaer (£2153 y m<sup>2</sup>), ac ychydig y tu ôl i'r Amwythig (£1292 y m<sup>2</sup>), ond mae ar y blaen i Crewe (£646 y m<sup>2</sup>).

3.11 Mae cwmni o'r enw Experian yn asesu prysurdeb canolfannau manwerthu yn y DU drwy gyfuno nifer o ffactorau o'i gronfa ddata manwerthu. Roedd Experian yn gosod Wrecsam yn 100<sup>fed</sup> ar y rhestr yn y DU yn 2002, gostyngiad bach ar 2001 (97<sup>fed</sup>) ond gwell na 1996 (137<sup>fed</sup>). Yn 2002, roedd Experian yn gosod Wrecsam fel y drydedd ganolfan siopa bwysicaf yng Nghymru, y tu ôl i Gaerdydd (6<sup>ed</sup>), ac Abertawe (54<sup>ain</sup>). Ymysg y canolfannau siopa yn Lloegr daeth Caer yn 5<sup>ed</sup> a'r Amgwythig yn 63<sup>ain</sup>.

## Cludiant

3.12 Mae'r Cyngor yn llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn flynyddol er mwyn amlygu'r cynnydd a wnaed o ran bodloni amcanion a nodau'r Cynllun Cludiant Lleol. Ymysg y camau llwyddiannus yn yr Adroddiad Cynnydd diweddaraf (2003-4) mae'r canlynol:

- Agorodd Gorsaf Fysiau newydd Wrecsam i'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2003.
- Cwblhawyd gwaith i wella cylchfan Gresford â'r ffordd ddeuol tuag at Ffordd Holt ym mis Medi 2002. (Roedd gweddill y cynllun i wella mynediad i Ystad Ddiwydiannol Wrecsam i ddechrau yn 2003, ond yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ni chadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y gorchmynion prynu gorfodol a oedd yn angenrheidiol. Mae'r Cyngor wedi dewis ffordd wahanol yn awr, a chyflwynir cais cynllunio maes o law. Mae'r gwaith adeiladu i ddechrau yn 2008).
- Llwybrau cerdded a beicio newydd a gwell;
- Darparu maes parcio gyda 30 llecyn a chyfnewidfa bysiau yng ngorsaf trenau Rhiwabon.

3.13 Mae'r Cyngor wedi methu â sicrhau ymroddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwaith i wneud yr A483/A5 rhwng Rhiwabon a'r Amwythig yn ffordd ddeuol, ond mae'n parhau i lobio am hyn.

## Gwastraff

3.13 Yn 2004-5 ailgylchwyd neu compostiwyd 15% o'r gwastraff cartref, a bu i 85% o'r gwastraff fynd i safleoedd tirlenwi. Cynrychiola hyn welliant sylweddol ers 1996, pan aeth 97% o'r gwastraff cartref i'r safleoedd tirlenwi. Mae'r Cyngor wedi gosod targed i gynyddu'r gwastraff cartref a ailgylchir neu a gaiff ei gompostio i 25% erbyn 2007-8.

3.14 Ceir tri safle sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer tirlenwi i gael gwared ar wastraff:

- Safle Astbury, Llay: daw'r caniatâd cynllunio i ben ym mis Rhagfyr 2006, ond daeth y gwaith o gael gwared ar wastraff i ben ym mis Ebrill 2005;

- Pen-y-Bont, Cefnbychan: gallu ar gyfer oddeutu 1 miliwn tunnell. Daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer cael gwared ar wastraff i ben ym mis Hydref 2007, ond roedd eto lle dros ben i'w lenwi ar y dyddiad hwn;
- Pwll Clai'r Hafod, Rhiwabon: gallu ar gyfer oddeutu 5½ miliwn tunnell. Mae'r caniatâd cynllunio hwn yn caniatáu gwaredu am 55 mlynedd, ond rhagwelir y bydd y cyfnod gweithredol yn llawer llai na hyn. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith arall yn dilyn apêl ym mis Awst 2004, ond mae'r penderfyniad hwn wedi bod yn destun sialens gyfreithiol. Nid yw tirlenwi ar y safle hwn wedi dechrau eto.

Mae digon o le yn y safleoedd tirlenwi am sawl blwyddyn i ddod. Fodd bynnag mae'n rhaid i'r Cyngor gynyddu lefel ailgylchu/compostio gwastraff cartref i 40% erbyn 2009-10 i gyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly bydd y gwastraff cartref sy'n mynd i'r safle tirlenwi'n lleihau'n raddol.


3.15 Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud ailgylchu a chompostio'n fwy hwylus ar gyfer trigolion Wrecsam drwy:

- Gynyddu nifer y canolfannau ailgylchu cymdogaethol;
- Wella'r cyfle i ailgylchu mewn safleoedd gwastraff cartref;
- Gynyddu'r deunydd y mae'r gwasanaeth casglu oddi ar y palmant yn ei gasglu i'w ailgylchu neu ei gompostio.

## Rhan B: Cyd-destun Cyffredinol G

### Tai

4.1 Dengys y graff isod y tai a gwblhawyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ers Ebrill 1996. Ers 1996 roedd tua 420 y flwyddyn ar gyfartaledd, oddeutu 9% yn uwch na'r ffigur polisi yn y CDU (385 y flwyddyn). Mae oddeutu 90% yn adeiladau o'r newydd a 10% yn adeiladau wedi eu trosi.




Sylwer: Mae'r ffigurau ar gyfer 2001-2 a 2002-3 wedi eu cam-lunio yn dilyn y gwaith arolwg a wnaed ym mis Gorffennaf 2002 yn hytrach na'r mis Ebrill arferol. Felly mae ffigurau 2001-2 yn cynnwys cyfnod o 15 mis, ac mae'r cyfnod 2002-3 yn cynnwys 9 mis yn unig.

4.2 At ddibenion cynllunio rhennir Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dair ardal bolisi:

- **Tref Wrecsam:** 1597 wedi eu cwblhau ers 1996 (41%) – Parc Caia (592), Offa (434), ac Acton (429) oedd y prif ardaloedd;
- **Pentrefi trefol:** 1307 wedi eu cwblhau ers 1996 (33%). Roedd y nifer mwyaf yn Broughton (333), Rhiwabon (228), Rhosllannerchrugog (185), Gwersyllt (148), a Brymbo (103).
- **Pentrefi gwledig:** 1037 wedi eu cwblhau ers 1996 (26%). Mae nifer mwyaf y tai a gwblhawyd ers 1996 wedi bod yn y Waun (171), Gresford (165), Rossett (145), ac Esclusham (109).

### Cyflogaeth

4.3 Ymddengys y tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ers 1996 isod:



Mae'r ardaloedd mwyaf a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth ers 1996 yn:

- Ystad Ddiwydiannol Wreccsam: 38.2 hectar
- Fenns Bank, Bronington (H H Wardle Metals Cyf): 13.0 hectar
- Ystad Ddiwydiannol Llay: 4.3 hectar
- Parc Technoleg Wreccsam: 2.0 hectar
- Ystad Ddiwydiannol Croesfoel, Rhostyllen: 1.3 hectar

4.4 Mae'r tir a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth ers 1996, sef 6.9 hectar y flwyddyn, wedi bod yn llai na hanner y ffigwr polisi (20 hectar y flwyddyn), ac wedi gostwng yn sylweddol ers canol y 1980au, pan ddefnyddiwyd oddeutu 25 hectar y flwyddyn ar gyfartaledd.

4.5 Wrth ystyried dyraniadau a chaniatâd gyda'i gilydd, roedd y tir glas a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflogaeth yn 42% o'r fwrdeistref sirol ac roedd 58% yn safleoedd tir llwyd.

## Siopa

4.6 Lleolir mwyafrif yr arwynebedd manwerthu ym Mwrdeistref Sirol Wreccsam yng nghanol y dref neu gerllaw canol y dref. Dangosodd astudiaeth masnach a gwblhawyd i'r Cyngor gan Drivers Jonas yn 2004 fod oddeutu 84000 m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr manwerthu ar gael yn nhref Wreccsam. Roedd 12.6% o'r siopau manwerthu yn wag, cyfran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 10.4%. Fodd bynnag roedd yr arwynebedd llawr manwerthu gwag yn Wreccsam (7.1%) ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (7.8%). Mae'n debyg bod hyn oherwydd bod gan Wreccsam nifer cymharol fawr o unedau bychain sy'n wag.

4.7 Dangosodd astudiaeth Drivers Jonas yn 2004 y ffigurau arwynebedd llawr canlynol yn y fwrdeistref sirol:

	Arwynebedd CYFLEUSTERAU (m sg)	Trosiant CYFLEUSTERAU 2004 £ miliwn	CYMHARIAETH Arwynebedd (m sg)	CYMHARIAETH Trosiant 2000 £ miliwn
Wreccsam	16427	123.6	57582	200.54
Gwersyllt	1992	30.7	879	1.57
Y Waun	1870	5.9	1158	2.04
Rhiwabon a Johnstown	975	6.5	484	0.59
Cefn Mawr	629	2.6	939	1.8
Rhosllannerchrugog	481	3.4	729	1.29
Gresford a Rossett	310	3.7	511	0.9
Coedpoeth	290	2	446	0.79
Arall	300	1.8	920	2.07

\*Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Siop Lidl ar Ffordd Salop (ar agor nawr) na safle Carlsberg Tetley (yn cael ei adeiladu).

4.8 O ran cymhariaeth, y prif ddatblygiad siopau yng nghanol tref Wreccsam yn y blynyddoedd diwethaf fu Sgwâr Henblas a agorwyd yn 1999. Mae hon yn cynnwys oddeutu 10000 m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr manwerthu a'r siopau BHS a T J Hughes. Y tu allan i ganol tref Wreccsam, cymerwyd y tir segur diwethaf ar Barc Manwerthu Plas Coch gan y siop Homepage. Agorodd Parc Manwerthu Border (5600 m<sup>2</sup> gros) yn 2001, a'r prif denantiaid yw Staples, Wickes, Roseby's a Next. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Gorffennaf 2005 ar gyfer datblygiad sylweddol o oddeutu 21000 m<sup>2</sup> (gyda Debenhams y siop adrannol yn ganolbwynt) ar Ddôl yr Eryrod, sy'n agos iawn i ganol y dref.

4.9 Cwblhawyd arolygon ym mis Tachwedd 1999 i ddynodi'r ardaloedd a oedd yn denu'r nifer fwyaf o gerddwyr yng nghanol y dref. Ar Stryt y Syfwr y canfuwyd nifer fwyaf y cerddwyr fesul awr (25000 o gerddwyr yn symud yr awr), Stryt y Frenhines (23000), Stryt yr Arglwydd (12000), a Stryt y Rhaglaw



(12000). Bydd arolygon pellach yn cael eu cynnal yn y dyfodol i ddatblygu proffil hir dymor llif y cerddwyr yng nghanol y dref.

4.10 Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd am dueddiadau manwerthu yn y DU gan Colliers CRE yn dangos pam fo manwerthwyr yn cael eu denu gan ganolfannau siopa'n gyffredinol. Roedd y ffigwr ar gyfer Wrecsam yn £1130 y m<sup>2</sup> yn 2005, sef yr un fath â 2004. O'i chymharu â chanolfannau siopa eraill yng Nghymru, roedd Wrecsam yn bedwerydd o ran lefelau rhentu yn 2005, a'r tu ôl i Gaerdydd, Abertawe, a Chasnewydd. O ran canolfannau siopa mae gan Wrecsam y lefel rhentu uchaf yng Nghymru a'r ganolfan agosaf ati yw Llandudno (£861 y m<sup>2</sup>). O'i chymharu â chanolfannau siopa mewn ardaloedd cyfagos yn Lloegr, mae lefelau rhentu yn Wrecsam y tu ôl i Gaer (£2153 y m<sup>2</sup>), ac ychydig y tu ôl i'r Amwythig (£1292 y m<sup>2</sup>), ond mae ar y blaen i Crewe (£646 y m<sup>2</sup>).

4.11 Mae'r cynnyrch masnachol ar eiddo o ran mentro yn cynrychioli'r enillion i'r buddsoddwr a gellir defnyddio hyn i fesur hyder buddsoddwyr. Ystyrir bod ardaloedd siopa sylfaenol yn llai o fenter nac ardaloedd siopa eilaidd a bydd buddsoddwr yn mynnu enillion dechreuol is wrth fuddsoddi mewn ardal siopa sylfaenol. Dangosodd Adroddiad y Farchnad Eiddo'r Swyddfa Brisio Fod Wrecsam wedi cynhyrchu 7% o fis Hydref 1994 i fis Ebrill 1999, ond i'r cynnyrch gynrychioli 6.75% ers mis Hydref 1999, sy'n adlewyrchu hyder buddsoddwyr. Mae ffigwr 6.75% Wrecsam yn cymharu â:

- Chaer: 5.75%
- Amwythig: 5.5%
- Llandudno: 7%
- Rhyl: 8%

## Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

4.12 **CAEAU CHWARAE I IEUENCTID / OEDOLION:** Yn 2005, roedd y caeau chwarae i ieuenctid/oedolion yn cwmpasu dros 182.3 hecтар ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam o'i gymharu â safon NPFA sef 203.4 hecтар, ac felly roedd diffyg o 23.1 hecтар. Gwelir y ffigurau ar gyfer pob cymuned yn y tabl isod. Mae gan 14 ardal gaeau chwarae i ieuenctid/oedolion dros ben a 21 yn dangos diffyg digon o gaeau chwarae.

Caeau chwarae i ieuenctid / oedolion – Cymunedau â gormodedd	(Ha)	Caeau chwarae i ieuenctid / oedolion – Cymunedau â diffyg	(Ha)	Caeau chwarae i ieuenctid / oedolion – Cymunedau â diffyg	(Ha)
Abenbury	4.99	<i>Erbistock</i>	-0.14	<i>Esclusham</i>	-2.31
De Maelor	4.73	<i>Ceiriog Ucha</i>	-0.20	<i>Penycae</i>	-2.68
Rhiwabon	4.06	<i>Bangor</i>	-0.48	<i>Cefn</i>	-2.72
Gwersyllt	2.70	<i>Hanmer</i>	-0.59	<i>Y Waun</i>	-2.87
Offa	2.58	<i>Worthenbury</i>	-0.95	<i>Llay</i>	-2.95
Isycoed	1.96	<i>Glyntraian</i>	-1.04	<i>Coedpoeth</i>	-3.54
Rossett	1.94	<i>Holt</i>	-1.23	<i>Rhosddu</i>	-4.16
Brymbo	1.63	<i>Llangollen Wledig</i>	-1.24	<i>Gresford</i>	-4.55
Owrtyn	0.61	<i>Rhos</i>	-1.41	<i>Broughton</i>	-5.01
Marchwiel	0.50	<i>Y Mwynglawdd</i>	-1.85	<i>Parc Caia</i>	-7.69
Bronington	0.44	<i>Acton</i>	-2.00		
Llansantffraid GC	0.31				
Sesswick	0.10				

4.13 **ARDALOEDD CHWARAE I BLANT:** mae lefel yr ardaloedd chwarae i blant yn 11.28 hecтар o'i gymharu â safon NPFA sef 25.44 hecтар, ac felly ceir diffyg o 14.19 hecтар. Gwelir y ffigurau ar gyfer pob cymuned yn y tabl isod. Mae 5 yn bodloni safonau NPFA, tra mae 29 yn dangos diffyg.

Ardaloedd chwarae i blant Cymunedau â gormodedd	(Ha)	Ardaloedd chwarae i blant – Cymunedau â diffyg	(Ha)	Ardaloedd chwarae i blant – Cymunedau â diffyg	(Ha)
Llay	0.34	<i>Ceiriog Ucha</i>	-0.06	<i>Glyntraian</i>	-0.13
Brymbo	0.11	<i>Isycoed</i>	-0.07	<i>Y Mwynglawdd</i>	-0.16
Bronington	0.02	<i>Erbistock</i>	-0.07	<i>Marchwiel</i>	-0.17
De Maelor	0.01	<i>Owrtyn</i>	-0.07	<i>Holt</i>	-0.24
Llansantffraid	0	<i>Worthenbury</i>	-0.07	<i>Y Waun</i>	-0.27
		<i>Bangor</i>	-0.08	<i>Rhiwabon</i>	-0.33
		<i>Abenbury</i>	-0.09	<i>Rossett</i>	-0.39
		<i>Llangollen Wledig</i>	-0.10	<i>Gresford</i>	-0.40
		<i>Sesswick</i>	-0.11	<i>Penycae</i>	-0.48
		<i>Hanmer</i>	-0.12	<i>Esclusham</i>	-0.52
				<i>Broughton</i>	-0.61
				<i>Coedpoeth</i>	-0.67
				<i>Rhosddu</i>	-0.78
				<i>Cefn</i>	-0.89
				<i>Offa</i>	-1.07
				<i>Gwersyllt</i>	-1.20
				<i>Rhosllannerchrugog</i>	-1.44
				<i>Parc Caia</i>	-1.83
				<i>Acton</i>	-2.25

4.14 **MANNAU GWYRDD ANFFURFIOL:** mae'r ddarpariaeth o fannau gwyrdd anffurfiol yn 201.20 hectar, sydd bron iawn 2½ gwaith yn fwy na'r safon NPFA sy'n 76.31 hectar. Gwelir y ffigurau ar gyfer pob cymuned yn y tabl isod. Mae gan 25 cymuned ormoddedd o fannau gwyrdd anffurfiol yn ôl safonau NPFA, ond nid oes gan 9 ddigon.

Mannau gwyrdd anffurfiol – Cymunedau â gormodedd	GORMODE DD (Ha)	Mannau gwyrdd anffurfiol – Cymunedau â gormodedd	GORMODE DD (Ha)	Mannau gwyrdd anffurfiol – Cymunedau â diffyg	DIFFYG (Ha)
Cefn	20.50	Llansantffraid GC	2.03	Hanmer	-0.03
Parc Caia	20.20	Penycae	1.90	Erbistock	-0.09
Acton	18.93	Brymbo	1.81	Owrtyn	-0.11
Offa	11.09	Llangollen Wledig	1.44	Marchwiel	-0.12
Broughton	9.72	Holt	0.62	Ceiriog Uchaf	-0.18
Gwersyllt	7.94	Gresford	0.61	De Maelor	-0.23
Rhosllannerchrugog	6.04	Y Mwynglawdd	0.52	Worthenbury	-0.29
Llay	4.90	Esclusham	0.31	Bronington	-0.45
Y Waun	4.49	Bangor	0.28	Rossett	-1.05
Abenbury	3.90	Sesswick	0.12		
Coedpoeth	3.73	Glyntraian	0.12		
Rhosddu	3.44	Isycoed	0.08		
Rhiwabon	2.73				

## Cludiant

4.15 Yr A5/A483 yw'r briffordd yn y fwrdeistref sirol ac mae'n ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Traws Ewropeaidd o Felixstowe i Gaerdybi. Cysylltir y fwrdeistref sirol â gogledd-ddwyrain Lloegr gan yr A55 (sy'n ymuno â'r A483 ychydig i'r de o Gaer) ac yna â thraffyrdd yr M53 a'r M56. Y prif gyswllt ffordd i ganolbarth Lloegr yw ar hyd yr A5 a thraffordd yr M54. Ceir dwy reilffordd o fewn y fwrdeistref sirol:

- Wrecsam a Gwersyllt i Bidston (ar gyfer Lerpwl);
- Caer – Wrecsam – Yr Amwythig – Birmingham.

Yn wahanol i gytrefi mawr, ar hyn o bryd nid oes gan fwrdeistref sirol broblemau difrifol â thagfeydd am gyfnodau hirfaith bob dydd. Mae'r tagfeydd ar y priffyrdd sy'n arwain i mewn ac allan o Wrecsam yn gyffredinol yn gyfyngedig i gyfnodau byr ar ddechrau a diwedd bob diwrnod gwaith. Mae'r traffig ar y priffyrdd yn y fwrdeistref sirol wedi cynyddu oddeutu 3% yn y 5 mlynedd rhwng 1998-2003. Mae'r llif traffig trymaf ar yr A483 o amgylch Wrecsam.

4.16 Yn y fwrdeistref sirol yn gyffredinol, nid oes gan 32% o gartrefi fynediad at gar. Mae'r ffigwr yn amrywio'n fawr - mae gan 52% ar Barc Caia fynediad at gar ac 8% yng Ngeiriog Uchaf. Felly mae cludiant cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol o fewn y fwrdeistref sirol, a cheir oddeutu 400,000 o deithiau bysiau lleol bob blwyddyn.

4.17 Mae rhannau o lwybrau hamdden hirbelleter yn ymddangos ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam:

- Rhan o lwybr Clawdd Offa sydd i'w gweld gerllaw Froncysyllte a'r Waun, ac yna ar draws dyffryn Ceiriog;
- Mae 24 kilometr o Lwybr Maelor o fewn y fwrdeistref sirol. Mae Lwybr Maelor yn cysylltu'r llwybr tywodfaen yn Sir Gaer â Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa;
- Mae Lwybr Clywedog yn daith sydd oddeutu 13 cilometr ar hyd yr afon Clywedog, o'r Mwynglawdd at Felin y Nant, drwy'r Bers ac ystad Erddig, ac yn gorffen ym Melin y Brenin.

## Meysydd Parcio

4.18 Ceir deg maes parcio cyhoeddus sydd â lle i 2500 o geir yng nghanol tref Wrecsam. Mae meysydd parcio i gwsmeriaid ac ymwelwyr mewn datblygiadau manwerthu yn darparu oddeutu 2000 lle ychwanegol, tra bod meysydd parcio i weithwyr yn darparu oddeutu 1300 lle. O'i chymharu â chanolfannau siopau eraill a threfi o faint tebyg, mae darpariaeth meysydd parcio Wrecsam, o'i fesur yn ôl manau parcio cyhoeddus yn ôl y boblogaeth, yn yr ystod ganolig. Darperir meysydd parcio cyhoeddus ym mwyafrif yr ardaloedd a'r pentrefi yn y fwrdeistref sirol. Y Cyngor sy'n rheoli ac yn berchen ar y mwyafrif ac fe'u defnyddir yn bennaf gan siopwyr lleol. Yn gyffredinol, ceir digon o le yn y meysydd parcio yn y pentrefi ac ar safleoedd ar y stryd i fodloni'r gofynion presennol, er ar rai adegau o'r dydd mae'r meysydd parcio yng Nghoedpoeth, Cefn Mawr a Rhiwabon yn llawn.

## Mwynau

4.19 Tywod a graean yw'r prif fwynau ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, ac mae'r cynnyrch yn cyfrannu'n sylweddol at gynhyrchiant rhanbarthol yng ngogledd Cymru. Ceir tri gwaith tywod a graean gweithredol: Maes Awyr Borrass, gogledd-ddwyrain Wrecsam: a weithredir gan Tarmac Central. Mae cais cynllunio ar gyfer dyfnhau ac ymestyniad i ochrau Maes Awyr Borrass, er mwyn cynyddu'r cronfeydd i oddeutu 22 miliwn tunnell, ac oes o tua 28-30 mlynedd yn cael ei ystyried gan y Cyngor;

- Fferm Caia, gogledd-ddwyrain Wrecsam: gweithredol gan Tarmac Central. Mae tywod a graean yn cael ei dynnu o Fferm Caia a'i brosesu ym Maes Awyr Borrass;
- Balls Wood, i'r dwyrain o Llay a weithredir gan RMC. Mae cais cynllunio i ymestyn y cronfeydd i tua 1.1 miliwn tunnell yn cael ei ystyried gan y Cyngor.

4.20 O ran y mwynau eraill:

- Mae clai yn cael ei gloddio ym Mhwll Clai'r Hafod yn Johnstown;
- Mae siâl gwaith glo yn cael ei dynnu o'r domen wastraff yn Llay i'w ddefnyddio yng ngwaith sment Padeswood yn Sir y Fflint.
- Cwblhawyd y gwaith cloddio glo brig ar gyn safle gwaith dur Brymbo, fel rhan o'r prosiect adennill yn 2004.
- Mae mawn yn cael ei dorri ar raddfa fechan yn Fenns Moss, ger Bettisfield, ar y ffin â Sir Amwythig.

## Gwastraff

4.21 Rhwng 1996 a 2005, bu i wastraff cartref a gasglwyd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam gynyddu o 71500 i 85000 tunnell, sef cynnydd o oddeutu 19%. Yn 1996, aeth 97% o'r gwastraff cartref i safleoedd tirlenwi. Erbyn 2004-5, roedd y ffigwr wedi gostwng i 85%, gyda 15% o'r gwastraff yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio. Y bwriad yw cynyddu'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio i 25% erbyn 2007-8.

#### 4.24 Dangoswyr ynghylch diogelu/datblygiad yr amgylchedd

DANGOSWR	EBRILL 2003/4	EBRILL 2004/5
<b>A. Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd</b>		
1. Nifer y camau a wnaed i dderbyn safbwyntiau	-	11
2. Nifer y datganiadau AEA llawn	-	1
<b>Sylwadau:</b> Mae 2004 yn darparu llinell sylfaenol ar gyfer y camau canfod barn a wnaed gan yr Adran Gynllunio		
<b>B. Bioamrywiaeth</b>		
3. Nifer y ceisiadau cynllunio a oedd yn cynnwys adfer a chreu cynefinoedd newydd drwy ddarparu amodau cynllunio.	0	27 amod safonol 12 Amod an-safonol. Cyfanswm = 39
4. Ardal o dir a neilltuwyd ar gyfer cadwraeth a thirwedd o fewn y fwrdeistref (ac eithrio safleoedd bywyd gwyllt lleol a gwahandir gwyrdd)	-	306 Cm sg o gyfanswm o 502 Cm sg yn ardal y Fwrdeistref Sirol
5. Nifer y gwarchodfeydd natur lleol y 1,000 o'r boblogaeth (hectar)	0.5	0.5
6. Hyd y gwrychoedd a dynwyd gyda chymeradwyaeth dan y Rheoliadau Gwrychoedd	1527 metr	0
7. Hyd y gwrychoedd a blannwyd o dan y cynllun grant	1410 metr	Nid yw'r cynllun bellach ar waith
8. Hyd y gwrychoedd a dynwyd heb ganiatâd ffurfiol, gan gan gynnwys camau gweithredu gorfodol	100 metr	0
9. Rhybudd Ailosod sy'n gofyn am blannu gwyrch	-	100 metr
10. Ardal o dir yr effeithiwyd arnynt gan rybuddion tir heb ei drin (2002)	0	33.05ha (2 safle)
11. Ardal o dir heb ei drin sy'n destun Datganiad Amgylcheddol llawn	0	15 ha. (1 safle)
<b>Sylwadau:</b> Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol yn 2004, mae'r ceisiadau'n cynnwys creu ac adfer cynefinoedd newydd yn gynyddol. Daeth SAC Ewropeaidd Mynyddoedd y Berwyn i rym ar ddechrau 2005, gan ychwanegu at dir a neilltuwyd yn y fwrdeistref sirol. Oherwydd hyn mae gofyn adolygu datblygiadau â chaniatâd cynllunio, a gallai gynnwys pwerau dirymiad. Roedd tynnu gwrych heb awdurdod yn destun apêl, a wrthodwyd yn didweddarach. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ailblannu'r gwrych i safon debyg. Daeth y rhybuddion tir heb eu trin i rym yn 2002. Roedd rhybudd a oedd yn cynnwys yr Adran Gynllunio fel ymgynghorai yn rhannol lwyddiannus wrth sefydlu'r angen am Asesiad o Effaith Amgylcheddol ar un o'r safleoedd.		
<b>C. Tirwedd a Choed.</b>		
12. Ardal o goetir ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam	668ha (2003/4 ffigwr gwaelodlin)	668ha
13. Nifer y RhCC ychwanegol	0	9
14. Nifer y RhCC a ddiddymwyd	0	0
<b>Sylwadau:</b> Yn Ebrill 2005 mabwysiadwyd Strategaeth Coed a Choetiroedd CBSW. Mae pwysau ar ddatblygiadau a mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus am y mesurau i ddiogelu coed.		
<b>D. Amgylchedd adeiledig</b>		
15. Nifer yr adeiladau rhestredig ychwanegol.	0 (Cyfanswm = 923)	2 (Cyfanswm = 925)
16. Gostyngiad yn yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl (gwaelodlin 2002) drwy'r broses cynllunio a chymorth grant	5%	6%
17. % oedran yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl a chamau gweithredu ar waith drwy'r broses cynllunio a chymorth grant	0	15%
18. Lleihau nifer yr adeiladau rhestredig Gradd 2* sydd mewn perygl	8	6
19. Nifer yr eiddo sy'n elwa o grant CADW.	0	2
20. Nifer yr eiddo sy'n elwa o grant gan CBSW	0	1
21. Nifer yr ardaloedd cadwraeth newydd / ychwanegol.	0	1 (Cefn Mawr)
<b>Sylwadau:</b> Ym mis Hyfref 2004 mabwysiadodd CBSW Strategaeth Pergylon Adeiladau Rhestredig, sydd â tharged blynyddol i leihau'r rheini sydd mewn perygl o 10% o'r cyfanswm sy'n weddill. Cyfanswm nifer yr adeiladau rhestredig a oedd mewn perygl oedd 105. Ym mis Rhagfyr 2004 bu i Gefn Mawr gael ei nodi fel ardal gadwraeth, a rhoddwyd grant cam cyntaf y Flaengaredd Treflun Treftadaeth.		
<b>E. Tir</b>		
22. Datblygiadau ar wahandiroedd gwyrdd	0	0

### Atodiad: Ystadegau Allweddol Poblogaeth

Tabl 1	Poblogaeth 2001	% cartref heb gar	%o siaradwyr Cymraeg sy'n 3+ oed
Acton	3023	32	14
	2517	11	15
Parc Borrás			
Bronington	3224	9	13
Brymbo	2653	28	20
Brynyffynnon	3105	37	16
Bryn Cefn	1974	20	16
Cartrefle	2288	40	12
Cefn	4866	30	19
Dyffryn Ceiriog	2310	13	37
Gogledd y Waun	2505	21	15
De'r Waun	1870	28	15
Coedpoeth	4721	26	26
Erddig	2217	17	21
Esclusham	2719	24	17
Garden Village	2073	14	18
Gresford D a G	2876	18	13
Grosvenor	2334	31	15
Gwenfro	1801	38	17
Gwersyllt D a D	4370	21	13
Gogledd Gwersyllt	2623	25	13
Gorllewin Gwersyllt	3063	23	14
Hermitage	2329	40	15
Holt	2828	10	12
Johnstown	3372	21	25
Little Acton	2376	15	17
Llangollen Wledig	1999	20	22
Llay	4905	23	13
Maesydre	2003	23	15
Marchwiél	2418	10	14
Marford & Hoseley	2458	6	13
Y Mwynglawdd	2437	10	24
New Broughton	3173	26	14
Offa	2201	30	16
Owrtyn	3139	12	12
Pant	2263	34	36
Penycae	2247	31	26
Penycae/De Rhiwabon	2331	16	22
Plas Madoc	1833	49	17
Ponciau	4486	29	40
Queensway	2462	53	12
Rhosnesni	3041	12	14
Rossett	3336	14	9
Rhiwabon	2400	32	18
Smithfield	2136	43	12
Stansty	2175	24	14
Whitegate	2786	31	13
Wynnstay	2210	52	12
<b>Cyfanswm</b>	<b>128476</b>		

<b>Tabl 2: Poblogaeth mewn Grwpiau oed yn 2001</b>	<b>Nifer</b>	<b>% cyfanswm</b>	<b>% Gwryw</b>	<b>% Benyw</b>
0-14	23,764	18.50	9.57	8.93
15-29	23,899	18.60	9.51	9.09
30-44	27,867	21.69	10.60	11.09
45-64	32,341	25.17	12.56	12.61
65-74	10,733	8.35	3.90	4.46
75+	9,872	7.68	2.68	5.00
<b>Cyfanswm</b>	<b>128,476</b>	<b>100.00</b>	<b>48.82</b>	<b>51.18</b>

<b>Tabl 3: Maint y Cartrefi yn 2001</b>	<b>Cartrefi</b>	<b>% Cyfanswm</b>
1	15227	28.61
2	18210	34.21
3	8667	16.28
4	7494	14.08
5	2785	5.23
6	688	1.29
7	109	0.20
8+	46	0.09
	<b>53226</b>	

<b>Tabl 4: Daliadaeth y cartref 2001</b>	<b>Nifer y cartrefi</b>	<b>% Cyfanswm</b>
Perchennog Preswyl	34,887	65.55
Rhentir yn Breifat	3,179	5.97
Rhentir gan Gymdeithas Tai	1,436	2.70
Rhentir gan yr Awdurdod Lleol	12,501	23.49
Arall	1,223	2.30

<b>Tabl 5: % y trigolion a gyflogir mewn:</b>	<b>CB Wrecsam</b>	<b>Cymru</b>
Amaethyddiaeth, helwriaeth a choedwigaeth	2.1	2.5
Pysgota	0.0	0.0
Chwarela a mwyngloddio	0.2	0.3
Cynhyrchu	25.4	17.3
Trydan; cyflenwi dŵr a nwy	1.3	1.0
Adeiladu	6.3	7.1
Cyfanwerthu a masnach manwerthu; atgyweiriadau	16.0	16.3
Gwestai a bwytai	4.5	5.4
Cludiant; storio, cyfathrebiadau	5.1	5.5
Cyllid canolog	2.9	3.3
Eiddo diriaethol; rhentu a busnes	8.0	8.5
Gweinyddiaeth cyhoeddus ac amddiffyn	4.6	6.8
Addysg	7.1	8.1
Gwaith cymdeithasol ac iechyd	12.7	13.0
Gweithio mewn arall	3.9	4.8

<b>Tabl 6: Diweithdra</b>	<b>Nifer</b>	<b>CB Wrecsam</b>	<b>Cymru</b>	<b>DU</b>
Ebrill 2004	1370	1.7%	2.4%	2.4%
Ebrill 2005	1414	1.8%	2.3%	2.4%

<b>Tabl 7: Teithio i'r Gwaith Dull a Gweithio adref</b>	<b>Pobl 16-74 mewn gwaith</b>	<b>Gweithio adref</b>	<b>Cludiant Cyhoeddus</b>	<b>Car</b>	<b>Ar droed</b>	<b>Beic</b>	<b>Arall</b>
<b>Wrecsam</b>	<b>57,080</b>	<b>8.5</b>	<b>6.6</b>	<b>73.2</b>	<b>8.7</b>	<b>1.6</b>	<b>1.4</b>
<b>Sir Y Fflint</b>	<b>69,452</b>	<b>7.8</b>	<b>5.2</b>	<b>76.7</b>	<b>7.2</b>	<b>1.7</b>	<b>1.5</b>
<b>Sir Ddinbych</b>	<b>38,277</b>	<b>11.6</b>	<b>4.1</b>	<b>69.6</b>	<b>11.5</b>	<b>1.8</b>	<b>1.4</b>
<b>Cymru</b>	<b>1,186,256</b>	<b>9.47</b>	<b>7.0</b>	<b>70.2</b>	<b>10.4</b>	<b>1.4</b>	<b>1.3</b>

